**Atodiad 3: Crynodeb Cynllun Gweithredu ôl Arolwg Estyn Cyngor Gwynedd:**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb yr Adran Addysg | Dyddiad Cwblhau: | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu yn strategol ar bob agwedd o'u gwaith a bod ganddynt oruchwyliaeth addas ac ystyriaeth lawn o risg ynghylch agweddau pwysig sydd wedi codi yn ystod yr arolygiad | Mae'r Adran Addysg eisoes yn y broses o lunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd ar gyfer Gwynedd. Mae'r Strategaeth Addysg wedi ei adnabod bellach fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor o Ebrill 2024 ymlaen, gyda rhaglen waith glir a cherrig milltir o safbwynt mireinio cynnwys y Strategaeth Addysg Ddrafft, ymgysylltu ar y blaenoriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, adnabod amserlen ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ynghyd â'r amserlen ar gyfer mynd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Cabinet.<br><br>Gwaith eisoes wedi cychwyn yn sgil penodiad y Pennaeth Addysg i osod cyfeiriad a blaenoriaethau clir ar gyfer yr Adran Addysg, gan sicrhau trefniadau priodol o amgylch adnabod swyddogion cyfrifol, llunio cerrig milltir, amserlen ac adnabod risgiau ynghlwm â'r blaenoriaethau hynny, fel rhan o gynllun gwella'r Adran a'r cylch hunanwerthuso. | 31 Rhagfyr 2024<br><br>31 Mawrth 2024 | Pennaeth Addysg / Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol.<br><br>Pennaeth Addysg |
| **A2** | Gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion. | Mae gwaith eisoes wedi cychwyn i ymateb i heriau presenoldeb drwy wella systemau adrodd a gwella ansawdd y data, ynghyd â rhannu negeseuon gydag ysgolion, ac mae'r gwaith hwnnw wedi cychwyn dwyn ffrwyth ddiwedd Tymor yr Hydref gyda chyfraddau presenoldeb wedi gwella, er bod peth ffordd i fynd i'r cyfraddau gynyddu i'r hyn oeddent cyn Covid-19.<br><br>Mae'r broses o lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhelliad wedi cychwyn, sydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:<br>• Gwella systemau adrodd ar bresenoldeb. | 31 Ionawr 2024<br><br>31 Mawrth 2024 | Rheolwr Cynhwysiad / Rheolwr Uned Ddata |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Adnabod absenoldebau parhaus yn gynnar.<br>• Trafod a gweithredu gydag ysgolion penodol lle mae heriau presenoldeb yn fwy amlwg.<br>• Ychwanegu cynhwysedd i'r Tîm Lles.<br>• Llunio a chynnal ymgyrch am bwysigrwydd presenoldeb. | | Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaeth ADYaCh / Rheolwr Cynhwysiad |
| **A3** | Cryfhau'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno. | Arfarniad allanol o ddarpariaethau cynhwysiad yr Awdurdod ar y cyd gyda rhanddeiliaid wedi ei gomisiynu, ac adroddiad drafft ynghyd ag argymhellion wedi eu cyflwyno i'r Adran.<br><br>Trafod canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad a gomisiynwyd gyda rhanddeiliaid gan lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br><br>Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith a monitro'r canlyniadau | 1 Rhagfyr2023 – 31 Ionawr 2024<br><br>31 Mai 2024<br><br>1 Mehefin 2024 ymlaen | Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaeth ADYaCh / Rheolwr Cynhwysiad<br><br>Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaeth ADYaCh / Rheolwr Cynhwysiad |

| Argymhelliad 2: | Gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion. | | | |
|---|---|---|---|---|
| Deilliannau Disgwyliedig: | Manylion y gefnogaeth: | Pryd: | Gan: | Sut bydd y cynnydd yn cael ei fonitro? |
| Monitro:<br>Gwella systemau monitro a tracio presenoldeb grwpiau penodol o blant | Tîm cynhwysiad a Swyddogion Addysg yn cydweithio gyda'r Uned Data Addysg ar gyfer gwella systemau adrodd | Ar waith | Tîm Cynhwysiad<br>Uned Ddata Addysg | Monitro o fewn y broses Herio Perfformiad<br>Adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Cefnogi Ysgol a Tîm Rheoli Addysg |
| Adnabod a gweithredu yn fuan ar ddisgyblion sydd a absenoldebau parhaus.<br>Monitro ysgolion unigol | Tîm cynhwysiad gyda'r uned data .<br>Swyddogion Lles gyda'r ysgolion yn adnabod yn gynnar | Ar waith | Tîm Cynhwysiad<br>Uned Data Addysg | Monitro o fewn y broses Herio Perfformiad<br>Adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Cefnogi Ysgol a Tîm Rheoli Addysg |
| Gwella systemau adrodd ar bresenoldeb er mwyn targedu ysgolion/grwpiau o ddysgwyr penodol | Tîm cynhwysiad a Swyddogion Addysg yn cydweithio gyda'r Uned Data Addysg ar gyfer gwella systemau adrodd | Trefn wedi ei sefydlu | Tîm Cynhwysiad<br>Uned Ddata Addysg | Monitro i fewn y broses Herio Perfformiad<br>Adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Cefnogi Ysgol a Tîm Rheoli Addysg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthuso:<br>Sicrhau fod presenoldeb yn cael sylw strategol o fewn y broses gwella ysgolion, llywodraethu ac adrodd | Tîm Cynhwysiad /Swyddogion lles | Ar waith | Tîm Cynhwysiad /Swyddogion Lles /Ysgolion | Penaethiaid, holl staff addysgu a Chyrff Llywodraethu pob ysgol yn derbyn eu cyfrifoldeb i fynnu disgwyliadau uchel mewn cynnal presenoldeb uchel. |
| Hyrwyddo:<br>Cynnal ymgyrch ar gyfer codi ymwybyddiaeth i bwysigrwydd presenoldeb cyson gyda rhieni<br><br>Adolygu'r dull gweithredu ar gyfer y Tîm Lles Addysg er mwyn ymateb i absenoldebau parhaus<br><br>Codi proffil pwysigrwydd lefel blaenoriaeth Presenoldeb gyda'r Ysgolion | Comisiynu gwaith cynllunio ymgyrch rhieni ar gyfer gwefannau cymdeithasol ac ar gyfer defnydd ysgolion<br><br>Staffio Ychwanegol o fewn y Tîm Lles Addysg er mwyn targedu teuluoedd penodol<br><br>Monitro effaith y gwaith hwn er mwyn cynorthwyo i edrych ar ddulliau gweithredu'r tîm Lles – h.y. monitro beth sydd yn gweithio, a ddim yn gweithio...<br><br>Atgoffa o'r disgwyliadau o ran gweithredu gan yr Ysgol (h.y. cyn mewnbwn y Swyddog Lles) | Erbyn Chwefror 2024<br><br>Ar waith<br><br>Wedi cwblhau | Tîm Cynhwysiad/Grwp Cynhwysiad Ysgolion<br><br>Rheolwr Cynhwysiad/Uwch Swyddog Lles<br><br>Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad<br>Rheolwr Cynhwysiad | Gwerthuso effaith yr ymgyrch .<br>Safon y deunyddiau ac eu defnydd.<br><br>Gwahaniaeth mewn canran presenoldeb |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynnal trafodaethau o fewn grwpiau Strategol Penaethiaid<br>Cynnal hyfforddiant ar gyfer pob Ysgol er mwyn atgoffa o'r prosesau a'r disgwyliadau | | | |

| Argymhelliad 3: | Cryfhau'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno. | | | |
|---|---|---|---|---|
| Deilliannau Disgwyliedig: | Manylion y gefnogaeth: | Pryd: | Gan: | Sut bydd y cynnydd yn cael ei fonitro? |
| Cynnal arfarniad o ddarpariaeth cynhwysiad er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod i ail-fodelu'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i ofynion presennol | Comisiynu arfarniad allanol sydd yn cynnwys rhanddeiliaid a'r ystod darpariaethau cynhwysiad | Rhagfyr '23/Ionawr '24 | Pennaeth Addysg | Cynllun gweithredu Ôl Arfarniad i gael ei fonitro trwy'r Tîm Rheoli Addysg |
| Yn dilyn derbyn adroddiad yr arfarniad allanol fe fydd cynllun gweithredu yn cael ei lunio a'i roi ar waith.<br><br>Bydd anghenion datblygu ac ail-fodelu'r gwasanaeth yn cael eu cynnwys o fewn y cynllun gweithredu hwn | Llunio cynllun gweithredu.<br>Sefydlu grwp tasg<br>Rheolwr prosiect | Ebrill '24 | Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad<br>Rheolwr Cynhwysiad<br>(Rhanddeiliaid eraill – Penaethiaid ac Arweinwyr Bugeiliol) | Cyflwyno adroddiad ar y cynllun gweithredu i'r Tîm Arweinyddiaeth (Ebrill 24)<br><br>Monitro cynnydd y cynllun trwy'r Tîm Rheoli Addysg |